



# E-GYLCHLYTHYR Hydref 2019



## Diweddariad TYR

Mae TYR y de-ddwyrain wedi bod yn brysur iawn dros fisoedd yr haf fel y byddwch wedi gweld yn ein bwletin newyddion y tîm fis diwethaf. Ers hynny, rydym wedi cynnal y rownd ddiweddaraf o gyfarfodydd rhwydwaith Cronfa GE ac rydym yn cynllunio cyfres o ddiwyddiadau a gweithdai ar gyfer nes ymlaen yn yr hydref.

Mae Lisa wedi'i phenodi i'r Is-grŵp Gweithredu a Chyflenwi sy'n ystyried cynlluniau ar gyfer cyllid datblygu rhanbarthol y dyfodol. Mae gan y grŵp gryn dipyn o waith i'w wneud mewn cyfnod byr o amser. Os oes gennych unrhyw beth yr hoffech i'r TYR ei fwydo i'r gwaith o ddatblygu'r rhaglen trwy'r grŵp hwn, cysylltwch â [Lisa.Jones@bridgend.gov.uk](mailto:Lisa.Jones@bridgend.gov.uk)

Diolch i chi i gyd am eich cyfraniad at broses werthuso allanol y TYR. Rydym yn rhagweld canlyniadau cychwynnol yn fuan a'r adroddiad llawn erbyn diwedd y flwyddyn. Rydym yn gobeithio ei rannu gyda chi yn rhifyn olaf 2019 y cylchlythyr.

Dros yr ychydig fisoedd nesaf, bydd ein ffocws yn dechrau troi o brawfesur y rhaglen gyfredol o safbwynt rhanbarthol i effaith

ranbarthol y rhaglen. Fel rhan o hyn, rydym yn bwriadu rhannu'r cyntaf o'r ffilmau rydym wedi'u comisiynu yn ystod yr hydref. Diolch i'r rhai ohonoch sydd wedi cyfrannu a gweithio gydag Orchard i roi hyn at ei gilydd.

Bydd yr ychydig fisoedd nesaf yn gyfnod mwy ansicr byth na'r hyn rydym wedi dod i arfer ag ef, ond mae arian i'w wario o hyd a phrosiectau i'w cyflenwi a bydd y TYR yn parhau i gefnogi'r rhanbarth tan fis Rhagfyr 2022.



## Yn y rhifyn hwn

### Diweddariad TYR

Tudalen 1

### Dyfodol buddsoddi rhanbarthol

Tudalen 2

### Diweddariad PRC

Tudalen 2

### Astute 2020

Tudalen 3

### Perfformiad rhanbarthol

Tudalen 4

### Gweithdy staff rhanbarthol

Tudalen 4

### Tasglu'r Cymoedd

Tudalen 5

### Parc Rhanbarthol y Cymoedd

Tudalen 6

### Cyrchfannau Denu Twristiaeth – Cwmcarn

Tudalen 7

## Dyfodol buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal y momentwm i ddatblygu fframwaith buddsoddi ar gyfer y dyfodol yng Nghymru, fel nad oes bwch yn y buddsoddiad i fusnesau, pobl a chymunedau.

Er bod y gwaith hwn yn ddibynnol ar weld Llywodraeth y DU yn bodloni galwadau Gweinidogion Cymru am gyllid ac ymreolaeth lawn, ar 18 Gorffennaf 2019, cafwyd datganiad ar y cyd rhwng y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit a Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ynghylch sut y

mae trafodaethau Llywodraeth Cymru â rhanddeiliaid ledled Cymru wedi helpu i osod y cyfeiriad a gytunwyd yn ddiweddar gan y Cabinet i lywio gwaith datblygu pellach dros y misoedd nesaf. Mae'r meysydd allweddol a gytunwyd gan y Cabinet yn ymwneud â blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol a chymysgedd o ddulliau gweithredu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, a fydd yn sicrhau y gellir lansio dogfen ymgynghori ddechrau 2020.

Mae dolen i'r datganiad yma: <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-diweddaraf-yng-hylch-dyfodol-buddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-ar-ol-brexit?>

## Diweddariad Prifddinas-Ranbarth Caerdydd



Ym mis Mehefin cyhoeddodd Cabinet Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PRC) lansiad y Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrraeth sy'n canolbwyntio ar dair blaenoriaeth y rhanbarth; arloesedd, seilwaith a her. Nod y fframwaith yw adeiladu llif cyflenwi gyda phartneriaid, o fewn a thu hwnt i BRC, wrth ganolbwyntio ar y blaenoriaethau a amlinellir yn y Cynllun Diwydiannol ac Economaidd a lansiwyd ym mis Chwefror.

Teithiodd Cyngor Busnes PRC ar draws y rhanbarth ym mis Gorffennaf i godi ymwybyddiaeth o Fargen Ddinesig PRC a'i gynllun i gefnogi a gweithio gydag amrediad o fusnesau rhanbarthol o bob maint.

Cynhaliodd cynrychiolwyr y cyngor busnes nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu â busnesau ar draws de-ddwyrain Cymru er mwyn cyflwyno Bargaen Ddinesig PRC i sefydliadau ac entrepreneuriaid a dod â Bargaen Ddinesig PRC yn agosach at gwmnïau o fewn y rhanbarth. Gwnaeth y sioe deithiol amlygu sut y gall Bargaen Ddinesig PRC a chwmnïau gydweithio a thyfu gyda'i gilydd yn ogystal â rhoi syniad clir i gwmnïau o'r cyfleoedd sydd gan Fargen Ddinesig PRC i'w cynnig a sut y gallent fod o fudd iddynt.

Ar 1 Awst cadarnhawyd Fframwaith Asesu Cyffredin sydd â'r nod o gyflwyno dull cydlynol o wella trafndiaeth ar draws rhanbarth y de-ddwyrain. Bydd Bargaen Ddinesig PRC a Llywodraeth Cymru yn cydweithio i sicrhau rhaglen gwelliannau a mentrau Metro Plus de Cymru gwerth £50 miliwn ar draws de Cymru, fydd yn cynnwys cyfraniadau gan y sector preifat. Hefyd o fewn y sector trafndiaeth, cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf y bydd Gorsaf Caerdydd Canolog yn derbyn £58 miliwn o gyllid gan Lywodraeth y DU fel rhan o gynlluniau i atgyweirio gorsaf brysuraf Cymru. Dilynodd y cyhoeddiad hwn y £40 miliwn a addawyd ym mis Ionawr 2018 gan Fargen Ddinesig PRC i gefnogi'r gwaith o ailddatblygu prif hwb trafndiaeth Caerdydd.

## ASTUTE 2020

### Gweithio gyda'r diwydiant gweithgynhyrchu ledled Cymru - Nodi a Manteisio ar Gyfleoedd.

Ar 23 Mai, gwnaeth Lisa Jones, Arweinydd Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru, gyflwyniad yn y Sioe Deithiol Arloesedd a Sgiliau ar gyfer Gweithgynhyrchu a gynhaliwyd ar y cyd gan weithrediadau Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd [ASTUTE 2020](#), [METAL](#) a'r [Academi Deunyddiau a Gweithgynhyrchu](#)



Gwnaeth y sioe deithiol hysbysu mynychwyr o'r gefnogaeth sydd ar gael i uwchsgilio gweithluoedd, i fanteisio ar gyfleoedd i gydweithio, ac yn y pendraw i ennill manteision cystadleuol trwy gysylltiadau ag academia. Mae'r timau ymgysylltu rhanbarthol yn rhwydwaith cefnogi allweddol ar gyfer prosiectau ERDF a ESF, sy'n helpu i amlygu cyfleoedd i gydweithio o fewn y rhanbarthau.

Gyda thechnolegau gweithgynhyrchu'r dyfodol yn cael eu nodi fel blaenoriaeth i'r sector gweithgynhyrchu barhau'n gystadleuol; prif neges ASTUTE 2020 oedd ei bod hi'n amser allweddol ar gyfer nodi a manteisio ar gyfleoedd sy'n bodoli eisoes a sut y gall busnesau ffynnu trwy gydweithredu ag ASTUTE 2020 ar sail galw a chysylltiadau rhwng diwydiant ac academia.

Mae ASTUTE 2020 yn cefnogi lefelau uwch o ymchwil, datblygu ac arloesi o fewn amrywiaeth o sectorau gweithgynhyrchu, gan

grŷfau gwybodaeth ac arbenigedd i wella effeithlonrwydd a chreu nwyddau a gwasanaethau o werth uwch sy'n anelu at hybu cynhyrchiant a thwf o fewn y diwydiant gweithgynhyrchu ar draws Cymru.

Gellir gweld tystiolaeth o hyn yn y datganiad gan Adam Glaznieks, Rheolwr Gyfarwyddwr, [Hi-Lex Cable System Co. Ltd](#):

*"Gallwn gadarnhau bod Hi-Lex wedi cael profiad cadarnhaol iawn gydag ASTUTE. Ar y pryd, nid oedd gennym y sgiliau priodol yn Hi-Lex i ddatrys problem benodol gyda chyfansoddyn a ddefnyddir ar geblau brêc-llaw i Ford. Roedd ASTUTE yn gallu cefnogi ac felly datrys y broblem. Yr hysbyseb orau am eu gwaith yw bod dyluniad y cyfansoddyn wedi cael ei ddefnyddio ar bob cerbyd Ford B-platform a gynhyrchwyd yn Ewrop ers 2013 heb unrhyw bryderon ynghylch gwarant".*

Gellir gweld astudiaethau achos pellach ar [wefan](#) ASTUTE 2020.

Am ragor o wybodaeth am eu hamrediad eang o gydweithrediadau diwydiannol a sut y gallant gefnogi busnesau rydych yn gweithio gyda nhw, cliciwch ar eu [map rhwyngweithiol](#) neu anfonwch e-bost at [Info@astutewales.com](mailto:Info@astutewales.com)



## Perfformiad rhanbarthol

Dyma'r prif ffigurau diweddaraf ar gyfer perfformiad gweithrediadau a ariennir gan Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd o fewn rhanbarth y de-ddwyrain. Os hoffech ragor o fanylion ar y data, anfonwch e-bost atom ni: [sewalesret@bridgend.gov.uk](mailto:sewalesret@bridgend.gov.uk). Nid yw ar gael ar [wefan WEFO](#) ar hyn o bryd.

Cronfa	Dangosydd	Ffigurau ar gyfer rhanbarth y de-ddwyrain
ERDF	Mentrau a gynorthwywyd	2,815
	Mentrau a grëwyd	686
	Swyddi a grëwyd	5,159
ESF	Cyfranogwyr a gynorthwywyd	87,502
	Cyfranogwyr a gefnogwyd i gyflogaeth	8,794
	Cyfranogwyr a enillodd gymwysterau	36,038
	Cyfranogwyr mewn addysg / hyfforddiant	2,234

### Gweithdy staff rhanbarthol

Ar 24 Gorffennaf, cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ddigwyddiad rhanbarthol ar gyfer pob aelod o staff o'r chwe chyd-fuddiolwr sy'n gweithio ar dri gweithrediad Cronfa Gymdeithasol Ewrop y mae'r awdurdod lleol yn arwain arnynt. Mynychodd dros 100 o aelodau tîm o Pontydd i Waith, Sgiliau Gwaith i Oedolion a Meithrin, Darparu, Ffynnu y digwyddiad undydd a gynhaliwyd ar gyron Caerdydd.

Roedd yr agenda ar gyfer y dydd yn cynnwys trosolwg perfformiad o'r tri gweithrediad a gweithdai ar amrediad eang o bynciau gan gynnwys cynllunio gweithredu gan gyfranogwyr, heriau gweithredu a themâu trawsbynciol.

Roedd y gweithdai'n rhyngweithiol ac yn rhoi

cyfle i staff rheng-flaen a staff cymorth i rannu arferion gorau, ystyried gwersi a ddysgwyd, herio canfyddiadau a chynllunio ffyrdd newydd o weithio.

Gwnaeth y gweithdy ar themâu trawsbynciol sbarduno trafodaeth fywiog gyda staff prosiect yn ceisio cael rhagor o dystiolaeth o'r gweithgarwch themâu trawsbynciol sydd eisoes ar waith ac ymgorffori cymorth themâu trawsbynciol ychwanegol ym mhob rhan o'r ddarpariaeth weithredol.

Hyd yma, mae'r tri gweithrediad wedi ymgysylltu â dros 6,000 o gyfranogwyr a nod cyffredinol y dydd oedd cynyddu cydweithredu, gwybodaeth a sgiliau ar draws y rhanbarth i alluogi'r timau i ddyblu nifer y cyfranogwyr a gefnogir i fwy na 12,000 erbyn diwedd 2022.



## Tasglu'r Cymoedd

Mae Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth wedi gwneud nifer o gyhoeddiadau pwysig ers ein diweddariad diwethaf ar Dasglu'r Cymoedd, gan gynnwys cyhoeddi [diweddariad cynnydd](#).



Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd y byddai'r dasglu yn adeiladu ar lwyddiant menter 'Cartrefi Gwag' Rhondda Cynon Taf sy'n cynnig grantiau i ymgeiswyr i ddod â'u cartrefi Mae'r dasglu'n gweithio'n agos gyda phob awdurdod lleol o fewn ffiniau tasglu'r Cymoedd gan anelu at agor ceisiadau ar gyfer cam un o'r rhaglen fis nesaf.

Yn deillio o weithdy entrepreneuriaeth a gynhaliwyd gan y Dirprwy Weinidog ym mis Ebrill, bûm yn gweithio gyda Hefin David AC, Busnes Cymru a phartneriaid eraill i beilota Cymhorthfa Busnesau Lleol ym Margoed ym mis Mehefin. Ers hynny, mae'r Dirprwy Weinidog wedi ysgrifennu i bob un o aeloda'r Cynulliad yn y cymoedd i gynnig cynnal digwyddiadau tebyg yn eu hetholaethau. Bydd y digwyddiadau yn dechrau yn yr hydref ac yn para tan y flwyddyn nesaf. Bydd y cymorthfeydd yn darparu cyfle i ymgysylltu a rhoi cyngor a chefnogaeth i fentwyr a busnesau yn lleol.

Mae trafniadaeth yn un o brif flaenoriaethau'r tasglu. Yn ystod rownd gyntaf ymgysylltu'r tasglu, mynediad i drafniadaeth reolaidd, dibynadwy a fforddiadwy oedd y prif fater. Rydym wedi gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru i gynnal cyfres o ddiwyddiadau cymunedol ar draws y cymoedd sy'n cynnig

cyfle i gymunedau drafod materion trafniadaeth lleol a gorsafoedd. Mae lleoliadau a dyddiadau wedi'u nodi yn y daflen ynghlwm.



Rydym hefyd wedi ariannu gwasanaeth bws tu allan i oriau mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau. Lanswyd y cynllun peilot ym mis Mai a bydd yn para am flwyddyn. Mae wedi'i ddylunio i ddarparu opsiwn trafniadaeth fforddiadwy a dibynadwy i bobl sy'n gweithio sifftiau.

Mae'r tasglu'n archwilio nifer o gynlluniau arloesol, gan gynnwys rhaglen alumni. Ein huchelgais yw bod gan bob ysgol uwchradd yn y cymoedd Alumni lle y gall cyn-ddisgyblion rannu eu hangerdd gyda myfyrwyr heddiw, trwy fod yn fodelau rôl ac arddangos yr ystod eang o lwybrau gyrfa sydd ar gael. Mae'r tasglu yn dod a phenaethiaid o ysgolion uwchradd ar draws y cymoedd at ei gilydd, ynghyd â chynrychiolwyr o ddiwydiant a masnach, i glywed am y gwaith da sydd eisoes yn mynd yn ei flaen ac i drafod sut y gall gael ei ddatblygu a'i ehangu er lles yr holl ddisgyblion yn y cymoedd.


Yn gynharach y mis hwn, cyhoeddodd y Prif Weinidog fod mwy na £6.6m wedi cael ei ddyrannu i 11 o Byrth Darganfod ar draws y cymoedd. Bydd y safleoedd yn cefnogi gwaith Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Mae manylion pellach yn y cylchlythyr hwn.

Os hoffech gael y wybodaeth ddiweddaraf ar holl ddatblygiadau Tasglu'r Cymoedd, dilynwch ni ar [Facebook](#), [Twitter](#) ac [Instagram](#) @TalkValleys / #EinCymoedd

## Parc Rhanbarthol y Cymoedd

Bydd 11 o barciau a safleoedd treftadaeth y Cymoedd a elwir yn Byrth Darganfod yn rhannu mwy na £6.6 miliwn er mwyn gwneud y gorau o botensial asedau naturiol a diwylliannol yr ardal.

Cafodd y cyhoeddiad ei wneud gan y Prif Weinidog Mark Drakeford a'r Dirprwy Weinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, sydd â chyfrifoldeb am Dasglu'r Cymoedd, Lee Waters yn ystod ymweliad ag [Amqueddfa Glofa Cefn Coed](#).



Bydd yr amqueddfa'n cael cyllid gwerth £1.8m gan Dasglu'r Cymoedd, yn ogystal â dros £1.5m y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi'i glustnodi. Bydd y cronfeydd cyfun hyn yn cynnig cyfleodd i ddatblygu safle Porth Darganfod enghreifftiol ar gyfer Parc Rhanbarthol y Cymoedd, a fydd yn talu teyrnged i dreftadaeth ddiwylliannol, ddiwydiannol ac amgylcheddol y rhanbarth.

Ymhllith y gwelliannau eraill i Byrth Darganfod a fydd yn elwa ar fuddsoddiad llwybrau beicio hygyrch i deuluoedd ym [Mharc Gwledig Cwm Dâr](#), a chanolfan ymwelwyr newydd ym [Mharc Penallta](#), darparu sylfaen ar gyfer gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar y gymuned sy'n cefnogi lles economaidd a chymdeithasol.

Bydd [Parc Gwledig Bryngarw](#), [Canolfan Treftadaeth y Byd Blaenafon](#), [Parc Cyfarthfa](#), [Fforest Cwmcarn](#), [Castell Caerffili](#), [Parc Brynbach](#), [Parc Slip](#) a [Pharc Coffa Ynysangharad](#) hefyd yn cael cyllid i wireddu uchelgeisiau Parc Rhanbarthol y Cymoedd.

Nod Parc Rhanbarthol y Cymoedd yw gwneud y gorau o botensial treftadaeth ddiwylliannol naturiol a chysylltiedig y Cymoedd i greu buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Mae'r buddsoddiad yn y Pyrth Darganfod yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y safleoedd hyn yn gallu darparu lleoedd diogel a chroesawgar y gall y gymuned leol eu mwynhau yn ogystal ag ymwelwyr. Bydd y safleoedd yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar yr amrywiaeth o dirluniau godidog sydd gennym.

Dywedodd y Prif Weinidog, Mark Drakeford: "Rwy'n falch iawn y bydd cymorth Llywodraeth Cymru yn Byrth Darganfod galluogi i ddod â hanes, diwylliant ac asedau naturiol yr ardal yn fyw ac edrychaf ymlaen at weld hynt y prosiectau pwysig hyn er budd y rhanbarth."



Dywedodd Dirprwy Lee Waters: "Bydd y prosiectau hyn yn rhoi Parc Rhanbarthol y Cymoedd ar y map yn genedlaethol ac yn rhyngwladol fel lle a all ysbrydoli, cyffroi a denu ymwelwyr lleol ac o bell. Byddant hefyd yn darparu cyfleodd ar gyfer twf economaidd, sef un o brif nodau Tasglu'r Cymoedd.

"Datblygwyd y cynlluniau hyn drwy ymgysylltu'n helaeth â chymunedau'r Cymoedd ac edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'n gilydd i ddod â Pharc Rhanbarthol y Cymoedd yn fyw."

I gael gwybodaeth bellach am fanylion y prosiectau sy'n derbyn cyllid, dilynwch [@TalkValleys](#).

## Cyrchfannau Denu Twristiaeth – Cwmcarn

Ar ddechrau mis Gorffennaf, dadorchuddiwyd dau atyniad newydd i dwristiaid yn [Fforest Cwmcarn](#) gan y Dirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas.



Mae gan yr atyniad i dwristiaid, sydd wedi'i leoli ym mwrdeistref sirol Caerffili, ardal chwarae 'hwb antur' newydd sbon bellach, sy'n cynnwys wal ddringo, sleidiau a siglenni gwinllan uchel.

Mae cabanau moethus newydd wedi cael eu hychwanegu i'r safle hefyd, yn ychwanegol i faes pebyll a phodiau glampio 4 seren Croeso Cymru sydd yno eisoes. Mae chwe chaban newydd, sy'n amrywio mewn maint o rai sydd â digon o le i 2 o bobl, i gartrefi gwyliau mwy o faint gyda lle i 6 o bobl.

Mae'r hwb antur a'r cabanau yn rhan o raglen Cyrchfan Denu Twristiaeth gwerth £4.6m a ariennir gan ERDF, ac a arweinir gan Croeso Cymru. Hefyd yn rhan o'r rhaglen mae Triongl Antur Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu, sy'n cael ei ddarparu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Llywodraeth Cymru.

Dywedodd y Dirprwy Weinidog, yr Arglwydd Elis-Thomas: "Mae prosiectau fel hwn wrth wraidd ein huchelgais i helpu cymunedau'r Cymoedd i ddathlu a gwneud y gorau o'u hadnoddau naturiol a'u treftadaeth.

"Ein nod, trwy'r rhaglen Cyrchfan Denu Twristiaeth, yw cyfeirio ein hymdrechion a buddsoddiad at brosiectau allweddol ym mhob rhanbarth fel ein bod yn cael effaith go iawn ar broffil Cymru yn y farchnad gystadleuol fyd-eang hon."

Bydd prosiectau'r dyfodol ym mwrdeistref sirol Caerffili yn cynnwys gwelliannau pellach yn Fforest Cwmcarn, gan gynnwys llwybrau beicio newydd, gwaith i seilwaith cangen Crymlyn o [Gamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu](#), a gwelliannau i lwybrau rhwng Twmbarlwm a gorllewin Torfaen.

